Future Skills Wales –
Generic Skills Survey 2003

Skillsmart

Arolwg Cyflogwyr Sgiliau Generig
Sgiliau Dyfodol Cymru 2003

SSC 'Skillsmart'

February 2005

Arolwg Cyflogwyr Sgiliau Generig Sgiliau Dyfodol Cymru 2003: SSC 'Skillsmart'

Adran 1
Cyflwyniad

1.1 Cefndir arolwg Sgiliau Dyfodol Cymru

Astudiaeth yw Arolwg Sgiliau Generig Sgiliau Dyfodol Cymru 2003 yn cynnwys Arolwg Cyflogwyr ac Arolwg Cartrefi, sy'n archwilio anghenion cyflogwyr yng Nghymru o ran sgiliau, a'r sgiliau a gynigir gan y bobl sy'n byw yno.

Cynhaliodd MORI ac Experian Business Strategies yr Arolwg Cyflogwyr ar ran Partneriaeth Sgiliau Dyfodol Cymru. Mae'r Bartneriaeth yn cynnwys cynrychiolwyr o blith prif lunwyr polisi Cymru, gan gynnwys y Rhwydwaith Sgiliau Busnes.

Diben Arolwg Sgiliau Generig Sgiliau Dyfodol Cymru 2003 yw cynorthwyo'r Bartneriaeth wrth ddatblygu polisi a chynllunio darpariaeth cyflwyno gwasanaeth. Mae'r Arolwg Cyflogwyr a'r Arolwg Cartrefi yn nodi anghenion sgiliau yn ogystal â'r gofynion am ddysgu a hyfforddi ymhlith cyflogwyr a'r boblogaeth sydd o oed gweithio yng Nghymru. Bydd gwybodaeth ar agweddau a chanfyddiadau yn helpu asiantaethau i symud y rhwystrau i hyfforddi ac yn annog pobl i ddysgu sgiliau newydd er mwyn achub ar y cyfleoedd am swyddi a ddaw i'r amlwg. Bydd y canfyddiadau yn rhoi gwybodaeth hefyd i fusnesau ac unigolion yn eu penderfyniadau recriwtio a chyflogi.

Mae'r arolygon yn canolbwyntio ar sgiliau generig, sef y sgiliau hynny y gellid eu trosglwyddo ar draws grwpiau a sectorau galwedigaethol. Nid yw Arolwg Sgiliau Generig Sgiliau Dyfodol Cymru 2003 yn mynd i'r afael â sgiliau sy'n swydd-benodol, hynny yw maent yn benodol i'r rôl a'r sector y mae unigolyn yn ymwneud â nhw, ond mae hwn yn faes allweddol lle gall y Cynghorau Sgiliau Sector (SSC) gyfoethogi'r wybodaeth am anghenion sgiliau yn eu sector, ac maent yn gwneud hyn.

Mae'r adroddiad cryno hwn yn rhoi trosolwg o ganlyniadau'r Arolwg Cyflogwyr ar gyfer sector ''Skillsmart''. Mae felly yn allbwn pwysig, am ei fod yn rhoi gwybod am anghenion a diffygion sgiliau generig penodol y sector yng Nghymru, ac yn ei gwneud yn bosibl cymharu â'r sefyllfa yng Nghymru yn ei chyfanrwydd.

1.2 Methodoleg yr arolwg

Cynhaliwyd cyfweliadau â 6,020 o sefydliadau rhwng mis Chwefror a mis Ebrill 2003 a chafwyd cyfanswm o 966 o gyfweliadau â sefydliadau yn sector ''Skillsmart''.

Cafodd yr holl sectorau yn yr economi eu cynnwys, a chynhwyswyd cyflogwyr a oedd yn cyflogi o leiaf un person (h.y. lle'r oedd o leiaf ddau berson yn gweithio mewn sefydliad).

Dewiswyd y sampl o Gronfa Ddata Busnes y Tudalennau Melyn. Cyfanswm y nifer darged o gyfweliadau a gyrhaeddwyd oedd 6,000. Dosbarthwyd hwn yn ôl cyfran ac yn ôl sefydliad[1], ar draws 22 Awdurdod Unedol Cymru (A.U.). Gosodwyd targed isaf o 200 o gyfweliadau ar gyfer pob A.U. O fewn yr A.U, dewiswyd y sampl yn gymesur yn ôl bandiau nifer y cyflogeion (2-10; 11-24; 25-99; a 100+) a sector y diwydiant (15 Adran y SIC) yn seiliedig ar ddata unedol gan yr Ymholiad Busnes Blynyddol (ABI) 2001. Graddfa'r ymatebion dilys oedd 51 y cant.

Mae'r data wedi'i bwysoli yn ôl yr A.U, nifer y cyflogeion a SIC gan ddefnyddio data Ymholiad Busnes Blynyddol 2001. Defnyddiwyd dau ddewis pwysoli:

- *Nifer yr unedau busnes*

Nifer y cyflogeion

Dylid nodi nad yw'r data wedi'u samplu na'u pwysoli yn unol â diffiniadau SSC, ac felly dylid trin y canlyniadau â pheth gofal, yn enwedig lle ceir llai o gyfweliadau. Ni chyflwynir unrhyw ganlyniadau yn yr adroddiad hwn lle mae nifer bas y cyfweliadau y seilir y data arnynt yn is na 50.

1.3 Diffinio'r Cyngor Sgiliau Sector

Am fod cod SIC 4-digid ar y data, mae'n bosibl dadansoddi'r data fel y mae'n ffitio i SSC. Mae SSC ''Skillsmart'' yn cynnwys cyflogwyr yn y diwydiant adwerthu, a defnyddiwyd 'ffit orau' codau SIC i'r sector hwn (52.1 – 52.6) i ddadansoddi'r data a gyflwynwyd yn yr adroddiad hwn.

1.4 Maint sampl y sector

Cynhaliwyd cyfanswm o 966 o gyfweliadau â sefydliadau yn SSC 'Skillsmart'. O ganlyniad i nifer y cyfweliadau, cafwyd dadansoddiad pellach ar gyfer isadrannau canlynol yr SSC:

- Adwerthu mewn siopau anarbenigol (cod SIC 52.1), y cyfeirir ato fel 'anarbenigol' yn y tablau (233 o gyfweliadau);
- Adwerthu bwyd, diodydd a thybaco mewn siopau arbenigol (cod SIC 52.2) y cyfeirir ato fel 'Bwyd' yn y tablau (118 o gyfweliadau);
- Adwerthu nwyddau fferyllol a meddygol (cod SIC 52.3), y cyfeirir ato fel 'fferyllol' yn y tablau (87 o gyfweliadau – ***dylid trin y canlyniadau ar gyfer yr isadran hon yn ofalus oherwydd maint isel y sail)***;

[1] Seiliwyd ar ddata proffil (nifer yr unedau) Ymchwiliad Busnes Blynyddol 2001

- Adwerthu arall nwyddau newydd mewn siopau arbenigol (cod SIC 52.4), y cyfeirir ato fel ‘arall newydd’ yn y tablau (505 o gyfweliadau).

Golyga hyn, wrth gwrs, na fydd yr isadrannau yn cyfrannu at y cyfan am na ddadansoddwyd codau SIC 52.5 a 52.6 yn y fath fanylder.

1.5 Arferion Adrodd

Mae’n werth nodi yn fan hyn bod yr adroddiad yn cynnwys llawer o dablau ac y defnyddiwyd arferion adrodd safonol:

- mae’r holl ganrannau wedi eu talgrynnu i rifau cyfan. Gall hyn olygu yn achlysurol nad yw canrannau yn creu swm o 100 y cant; ac

- mae '*' yn nodi bod y gwerth yn llai na 0.5 y cant.

1.6 Amlinelliad yr adroddiad

Mae adran ganlynol yr adroddiad yn ystyried y sgiliau cyfredol a thebygol y mae eu hangen ar gyflogwyr yn Adran 2. Mae adran 3 yn ystyried anawsterau recriwtio a swyddi sy’n wag o achos prinder sgiliau, ac mae’r adran nesaf yn archwilio prinderau o ran sgiliau mewnol mewn sefydliadau yn y sector. Mae adran 5 yn archwilio’r hyn y mae’r arolwg yn ei ddweud wrthym am weithgarwch hyfforddi a’r rhwystrau i hyfforddi a gafwyd gan gyflogwyr.
.

Adran 2
Yr Anghenion o ran sgiliau

2.1 Y sgiliau y mae eu hangen nawr ac yn y tair blynedd nesaf

Mae'r arolwg yn gofyn i gyflogwyr ystyried y math o sgiliau y mae eu hangen ar hyn o bryd yn eu sefydliadau ac ar ba lefel y mae angen y sgil hwnnw. Dangosir y canlyniadau ar gyfer sector 'Skillsmart' ac ar gyfer Cymru gyfan yn y tabl isod. Deall anghenion cwsmer, Cyfathrebu a'r Gallu i ddilyn cyfarwyddiadau yw'r sgiliau generig y mae eu hangen ar y lefel uchaf.

Tabl 2.1 Lefelau sgil y mae eu hangen ar hyn o bryd

Lefelau'r anghenion sgil ar hyn o bryd						
	Lefel (% y sefydliadau)					
	Dim angen (0)	Sylfaenol (1)	Canolradd (2)	Uchel (3)	Uwch (4)	Ddim yn gwybod
Rhifedd	4	15	22	46	13	*
Llythrennedd	2	14	23	48	13	*
Iaith Gymraeg	62	18	11	7	2	1
Iaith dramor	83	11	4	1	*	*
Datrys problemau	8	18	28	39	8	*
Cyfathrebu	1	9	14	55	20	*
Y gallu i ddilyn cyfarwyddiadau	3	9	15	56	18	*
Sgiliau TG	29	24	25	17	5	*
Y Gallu i ddysgu	2	13	21	52	11	*
Dangos menter	2	9	22	51	16	1
Sgiliau arweinyddiaeth	11	16	25	38	11	*
Sgiliau rheoli	21	16	21	31	10	1
Trefnu eu dysgu a'u datblygiad eu hunain	15	16	30	32	6	1
Gweithio mewn tîm	5	8	18	52	17	*
Deall anghenion cwsmer	1	6	10	53	30	*
Sgiliau entrepreneuriaeth	32	20	22	18	6	1
Hyblygrwydd	2	9	20	52	16	1
Y sail bwysol =966 (yr holl sefydliadau yn sector SSC 'Skillsmart')						
Ffynhonnell: Arolwg Sgiliau Generig Sgiliau Dyfodol Cymru 2003						

Gan edrych i'r dyfodol, bydd angen yr holl fathau o sgil ar lefel ychydig yn uwch yn y sector, gyda sgiliau TG yn un o'r rhai sy'n gweld y cynnydd uchaf.

Tabl 2.2: Lefelau yr anghenion sgiliau a ddisgwylir ymhen tair blynedd

Lefelau yr anghenion sgiliau a ddisgwylir ymhen tair blynedd						
	Lefel (% y sefydliadau)					
	Dim angen (0)	Sylfaenol (1)	Canolradd (2)	Uchel (3)	Uwch (4)	Ddim yn gwybod
Rhifedd	3	14	18	49	15	1
Llythrennedd	2	11	21	48	16	1
Iaith Gymraeg	56	19	12	9	3	2
Iaith dramor	77	13	5	3	1	2
Datrys problemau	7	15	24	41	13	1
Cyfathrebu	1	8	10	54	26	1
Y gallu i ddilyn cyfarwyddiadau	3	7	13	53	23	1
Sgiliau TG	20	19	21	27	12	1
Y Gallu i ddysgu	2	10	17	53	17	1
Dangos menter	2	7	16	53	21	1
Sgiliau arweinyddiaeth	10	12	20	42	15	1
Sgiliau rheoli	19	13	17	34	15	2
Trefnu eu dysgu a'u datblygiad eu hunain	13	13	24	34	14	2
Gweithio mewn tîm	4	8	13	51	23	1
Deall anghenion cwsmer	1	5	7	48	39	1
Sgiliau entrepreneuriaeth	30	17	21	20	10	2
Hyblygrwydd	2	6	18	51	22	1
Y sail amhwysol: 966 (yr holl sefydliadau yn sector SSC 'Skillsmart')						
Ffynhonnell: Arolwg Sgiliau Generig Sgiliau Dyfodol Cymru 2003						

Adran 3
Anawsterau Recriwtio a Swyddi sy'n wag o achos Prinder Sgiliau

Yn yr arolwg, ceir dau fesur o anawsterau recriwtio:

- Swyddi Gwag anodd-eu-llenwi - swyddi gwag y mae sefydliadau yn deall eu bod yn 'anodd-eu-llenwi'.
- Swyddi sy'n wag o achos Prinder Sgiliau - swyddi gwag y mae sefydliadau yn credu eu bod yn anodd-eu-llenwi am resymau yn ymwneud â sgiliau. Fe'u diffinnir yn benodol yn yr arolwg hwn yn rhai 'anodd-eu-llenwi' am 'nad oes gan ymgeiswyr y cymwysterau y mae ar gyflogwyr eu heisiau', 'nid oes gan ymgeiswyr y profiad perthnasol' ac 'nid oes gan ymgeiswyr y sgiliau perthnasol y mae eu hangen arnom'

3.1 Nifer y swyddi gwag, y swyddi gwag anodd-eu-llenwi, a'r swyddi sy'n wag o achos prinder sgiliau

Roedd bron un o bob pump (19 y cant) o sefydliadau yn sector SSC 'Skillsmart' wedi nodi o leiaf un swydd wag adeg yr arolwg, nododd 12 y cant y sefydliadau bod ganddynt swyddi gwag anodd-eu-llenwi adeg yr arolwg, a nododd 4 y cant bod ganddynt swyddi sy'n wag o achos prinder sgiliau, hynny yw, swyddi gwag a oedd yn anodd-eu-llenwi am resymau yn ymwneud â sgil.

Mae cyfran y sefydliadau sy'n nodi swyddi gwag, swyddi gwag anodd-eu-llenwi a swyddi sy'n wag o achos prinder sgiliau ychydig yn is nag yng Nghymru yn ei chyfanrwydd (22 y cant, 14 y cant a 7 y cant yn y drefn honno).

Pan y'u hystyrir yn ganran o gyflogaeth, mae swyddi gwag yn SSC 'Skillsmart' yn cynrychioli 3.7 y cant y gyflogaeth, sy'n uwch na'r ffigwr i Gymru gyfan. Mae gan sector 'Skillsmart' hefyd gyfran uwch o swyddi gwag anodd-eu-llenwi fel cyfran o gyflogaeth o gymharu â Chymru gyfan, sef 1.9 y cant o gymharu ag 1.1 y cant. Nid oes data tebyg i gael ar gyfer swyddi sy'n wag o achos prinder sgiliau o ganlyniad i faint isel y seiliau.

Tabl 3.1 Nifer y Swyddi gwag, y swyddi gwag anodd-eu-llenwi a'r swyddi sy'n wag o achos prinder sgiliau

	Cymru		SSC 'Skillsmart'	
	% y sefydliadau sy'n adrodd	*% o gyflogaeth*	*% y sefydliadau sy'n adrodd*	*% o gyflogaeth*
Yr holl swyddi gwag	22	2.0	19	3.7
Y swyddi gwag anodd-eu-llenwi	14	1.1	12	1.9
Y swyddi sy'n wag o achos prinder sgiliau	7	0.5	4	Dd./B
Y sail amhwysol	**6,020**	**6,020**	**966**	**966**

Ffynhonnell: Arolwg Sgiliau Generig Sgiliau Dyfodol Cymru 2003
Sail: Yr holl sefydliadau

Gellir gweld, yn ôl isadran, bod crynodiadau uwch o swyddi gwag a swyddi gwag anodd-eu-llenwi yn yr isadran adwerthu Bwyd.

Tabl 3.2 Amlder y swyddi gwag, y swyddi gwag anodd-eu-llenwi a'r swyddi sy'n wag o achos prinder sgiliau yn ôl isadran

	Cyfran y sefydliadau sy'n nodi swyddi gwag	*Swyddi Gwag fel cyfran ygyflogaeth*	*Cyfran y sefydliadau sy'n nodi swyddi gwag anodd-eu-llenwi*	*Swyddi gwag anodd-eu-llenwi fel cyfran o gyflogaeth*	*Cyfran y sefydliadau sy'n nodi swyddi sy'n wag o achos prinder sgiliau*
Cymru	22	2.0	14	1.1	7
'Skillsmart'	**19**	**3.7**	**12**	**1.9**	**4**
Anarbenigol	26	2.3	15	1.0	1
Bwyd	24	4.7	15	3.1	4
Fferyllol	*10*	*2.1*	*7*	*1.1*	*4*
Arall newydd	18	4.2	11	2.5	4

Ffynhonnell: Arolwg Sgiliau Generig Sgiliau Dyfodol Cymru 2003
Sail: Yr holl sefydliadau

3.2 Proffil galwedigaethol swyddi gwag a swyddi gwag anodd-eu-llenwi

Mae dosbarthiad galwedigaethol swyddi gwag anodd-eu-llenwi yn sector SSC 'Skillsmart' yn adlewyrchu'n fras y dosbarthiad o ran cyflogaeth, er bod cyfran y swyddi gwag anodd-eu-llenwi yn yr alwedigaeth sy'n ymwneud â Chrefft yn uwch nag y mae ei chyfran o gyflogaeth yn ei awgrymu. Er nad oes dim ond 3 y cant y gyflogaeth yn y sector hwn (yn ôl y cyflogwyr yn yr arolwg) ymysg galwedigaethau yn ymwneud â chrefft, mae 13 y cant y swyddi gwag anodd-eu-llenwi ymysg y grŵp hwn.

Tabl 3.3 Dosbarthiad swyddi gwag anodd-eu-llenwi yn ôl galwedigaeth

	Cyflogaeth		**Swyddi gwag anodd eu llenwi %**	
	Cymru	*'Skillsmart'*[2]	*Cymru*	*'Skillsmart'*
Rheolwyr ac uwch swyddogion	11	18	3	7
Gweithwyr proffesiynol	18	3	8	1
Gweithwyr proffesiynol cysylltiol	12	2	18	5
Staff gweinyddol	15	4	4	2
Crefftwyr	11	3	20	13
Staff gwasanaeth personol	6	1	9	1
Staff gwerthiant a gwasanaeth cwsmeriaid	10	64	10	64
Gweithwyr peiriannau	6	2	9	2
Staff elfennol	12	2	18	5
Cyfanswm	100	100	100	100

Ffynhonnell: Arolwg Sgiliau Generig Sgiliau Dyfodol Cymru 2003
Sail: Yr holl sefydliadau â swyddi gwag anodd-eu-llenwi

[2] Noder – nid yw hyn yn gwneud cyfanswm o gant am nad oedd yr holl gyflogwyr wedi gallu ateb. Mae hefyd yn ddata amhwysol fel y'i cyflwynwyd ar gyfer SSC 'Skillsmart'

3.3 Y rhesymau tros swyddi gwag anodd-eu-llenwi

Prif achos swyddi gwag anodd-eu-llenwi yn sector 'Skillsmart' yw diffyg ymgeiswyr yn gyffredinol neu rai sy'n fodlon gweithio am bris y farchnad, fel a nodwyd gan 24 y cant y sefydliadau â swyddi gwag anodd-eu-llenwi. Cafodd gwaith sifft ei nodi fel rheswm yn llawer mwy aml yn y sector hwn nag yng Nghymru yn ei chyfanrwydd (nodwyd gan 18 y cant y sefydliadau â swyddi gwag anodd-ei-llenwi yn sector SSC 'Skillsmart' , o gymharu ag 8 y cant yng Nghymru gyfan.

Tabl 3.4 Prif achosion swyddi gwag anodd-eu-llenwi

	'Skillsmart'	**Cymru**
Ymateb lluosog	*%*	*%*
Diffyg cymhelliant/agwedd iawn gan yr ymgeiswyr	16	9
Diffyg cymwysterau yr ydym ni eu heisiau gan yr ymgeiswyr	4	7
Diffyg profiad perthnasol gan yr ymgeiswyr	11	13
Diffyg sgiliau perthnasol y mae eu hangen arnom gan yr ymgeiswyr	9	20
Cwmni/diwydiant yn methu talu pris y farchnad	2	3
Mae'r swydd yn golygu gwaith sifft/oriau anghymdeithasol	18	8
Diffyg ymgeiswyr/pobl sy'n fodlon gweithio am bris y farchnad/sydd â diddordeb yn y math hwn o waith	24	18
Datblygiad gyrfa gwael/diffyg rhagolygon am yrfa	0	1
Diffyg adnoddau i recriwtio yn effeithiol	*	1
Nid yw'r bobl â'r sgiliau angenrheidiol eisiau symud i'r ardal hon	0	2
Delwedd wael y sector	0	1
Lleoliad anghysbell/trafnidiaeth gyhoeddus wael	2	3
Gwaith tymhorol	2	*
Gormod o gystadleuaeth gan gyflogwyr eraill	1	2
Arall	5	1
Ddim yn gwybod	5	6
Sail amhwysol	**118**	**1019**

Ffynhonnell: Arolwg Sgiliau Generig Sgiliau Dyfodol Cymru 2003
Sail: Yr holl sefydliadau â swyddi gwag anodd-eu-llenwi

3.4 Yr hyn a wnaed gan fusnesau mewn ymateb i swyddi gwag anodd-eu-llenwi a swyddi sy'n wag o achos prinder sgiliau

Mae'r tabl isod yn dangos yr hyn y mae sefydliadau yn y sector yn ei wneud mewn ymateb i swyddi gwag anodd-eu-llenwi. Mae 32 y cant y sefydliadau â swyddi gwag anodd eu llenwi yn ehangu eu sianelau recriwtio presennol, ond ni wnaeth 26 y cant unrhyw beth yn benodol i fynd i'r afael â'r mater. Mae'r ffigwr olaf hwn yn uwch nag i sefydliadau yng Nghymru gyfan.

Tabl 3.5 Ymatebion i swyddi gwag anodd-eu-llenwi

	'Skillsmart'	**Cymru**
Ymateb lluosog		*%*
Ehangu'r sianelau recriwtio	32	40
Cynyddu hyfforddiant a datblygu ymysg y gweithlu	1	20
Cynnig mwy o dâl/mân fanteision	6	13
Recriwtio o wahanol ardaloedd daearyddol	5	11
Tynnu sylw cyflenwyr lleol at y broblem	6	7
Cynnig cyfleoedd hyfforddi i ddenu recriwtiaid	6	6
Defnyddio mwy o staff dros dro	5	6
Cynyddu/ehangu rhaglenni i hyfforddeion	2	3
Dim ymateb	26	13
Sail amhwysol	**118**	**1019**

Ffynhonnell: Arolwg Sgiliau Generig Sgiliau Dyfodol Cymru 2003
Sail: Yr holl sefydliadau â swyddi gwag anodd-eu-llenwi

Adran 4
Bylchau o ran Sgiliau Mewnol

4.1 Amlder a natur y bylchau sgiliau

Gofynnwyd i gyflogwyr hefyd am lefel y sgiliau ymysg eu gweithwyr presennol er mwyn cael gwybod pa un a oedd bwlch rhwng y mathau o sgiliau sydd ganddynt ar hyn o bryd, a'r sgiliau y mae eu hangen arnynt i ddiwallu amcanion y busnes.

Tra bod swyddi gwag, swyddi anodd-eu-llenwi a swyddi sy'n wag o achos prinder sgiliau yn mesur pa un a oes anghydbwysedd yn y farchnad lafur allanol, mae bylchau o ran sgiliau yn mesur yr anghydbwysedd yn y sefydliad.

Er bod cyfran lai o sefydliadau yn sector SSC 'Skillsmart' yn nodi bwlch o ran sgiliau, maent yn cynrychioli cyfran uwch o gyflogaeth nag yng Nghymru yn ei chyfanrwydd, ac felly ceir awgrym o broblem fwy difrifol ymysg rhai gweithluoedd penodol. Ymddengys fod crynodiad penodol o fylchau o ran sgiliau yn yr isadran Fwyd, lle nad oes gan 16 y cant y gweithwyr lefelau digonol o sgil i ddiwallu amcanion y busnes, o gymharu ag 11 y cant yn y sector yn ei gyfanrwydd.

Tabl 4.1 Amlder y bylchau o ran sgiliau yn ôl galwedigaeth

	% y sefydliadau sy'n nodi bylchau o ran sgiliau	*Bylchau o ran sgiliau fel canran o gyflogaeth*	*Sail amhwysol*
Cymru	19	5.1	6020
'Skillsmart'	**17**	**11**	**966**
Anarbenigol	21	11	233
Bwyd	16	16	118
Fferyllol	*20*	*7*	*87*
Arall newydd	16	10	505

Ffynhonnell: Arolwg Sgiliau Generig Sgiliau Dyfodol Cymru 2003
Sail: Yr holl sefydliadau

Gellir cymharu'n fras ddosbarthiad y bylchau o ran sgiliau yn ôl galwedigaeth, â dosbarthiad cyflogaeth yn y sector 'Skillsmart'.

Tabl 4.2 Dosbarthiad bylchau o ran sgiliau yn ôl galwedigaeth

	Cymru		SSC 'Skillsmart'	
	% bylchau o ran sgiliau	*Cyflogaeth %*	*% bylchau o ran sgiliau*	*Cyflogaeth [3] %*
Rheolwyr ac uwch swyddogion	14	11	13	18
Gweithwyr proffesiynol	14	18	4	3
Gweithwyr proffesiynol cysylltiol	7	12	1	2
Staff gweinyddol	10	15	3	4
Crefftau	12	11	3	3
Staff gwasanaeth personol	8	6	*	1
Staff gwerthiant a gwasanaeth cwsmeriaid	15	10	67	64
Gweithwyr peiriannau	11	6	7	2
Staff elfennol	9	12	3	2
Cyfanswm	100	100	100	100

Ffynhonnell: Arolwg Sgiliau Generig Sgiliau Dyfodol Cymru 2003
Sail: Yr holl sefydliadau

Dengys tabl 4.3 y mathau o sgiliau generig nad oedd cyflogwyr yn teimlo bod eu staff presennol yn meddu arnynt, lle roeddynt wedi nodi bwlch o ran sgiliau. Nododd 30 y cant o sefydliadau â bylchau o ran sgiliau nad oedd gan y gweithwyr hynny oedd â bwlch o ran sgiliau, sgiliau 'Cyfathrebu' nodwyd sgiliau TG gan 20 y cant y sefydliadau, a nodwyd diffyg 'Dangos menter' gan 15 y cant ohonynt.

[3] Noder – nid yw hyn yn creu cyfanswm o 100 am nad yw'r holl gyflogwyr wedi gallu ymateb. Mae hefyd yn ddata amhwysol fel y'i cyflwynwyd ar gyfer SSC 'Skillsmart'.

Tabl 4.3 Natur y bylchau o ran sgiliau

Ymateb lluosog	**'Skillsmart'**	**Cymru** *%*
Sgiliau Cyfathrebu	30	21
Dangos Menter	15	12
Deall anghenion chwsmeriaid	3	10
Sgiliau datrys problemau	11	11
Gallu i ddysgu	13	10
Sgiliau rheoli	8	9
Sgiliau Gweithio mewn tîm	6	6
Sgiliau TG	20	24
Sgiliau llythrennedd	4	4
Sgiliau rhifedd	7	6
Sgiliau Iaith dramor	6	3
Sgiliau rhyngbersonol	0	1
Profiad	6	6
Sgiliau swydd-benodol	7	8
Gallu i ddilyn cyfarwyddiadau	6	9
Sgiliau iaith Gymraeg	5	5
Dim anawsterau sgil penodol	0	2
Ddim yn gwybod	1	2
Sail amhwysol	**177**	**1198**

Ffynhonnell: Arolwg Sgiliau Generig Sgiliau Dyfodol Cymru 2003
Sail: Yr holl sefydliadau â bwlch sgiliau

4.2 Effaith y bylchau o ran sgiliau

Effaith fwyaf y bylchau o ran sgiliau mewnol yn sector SSC 'Skillsmart' oedd colli ansawdd yn narpariaeth y gwasanaeth, gydag 18 y cant y sefydliadau â bylchau o ran sgiliau yn nodi'r effaith hon. Roedd llai nag 1 y cant yn dweud nad oeddent wedi cael unrhyw broblemau penodol o ganlyniad i'r bylchau o ran eu sgiliau, sy'n awgrymu bod hyd a lled a dyfnder y broblem yn ddifrifol yn y sector hwn.

Tabl 4.4 Effaith y bylchau o ran sgiliau

Ymateb lluosog	**'Skillsmart'** *%*	**Cymru** *%*
Colli busnes i gystadleuwyr	16	15
Colli ansawdd yn y gwasanaeth	18	16
Oedi mewn datblygu cynnyrch neu wasanaethau newydd	5	7
Anodd bodloni amcanion gwasanaeth cwsmeriaid	13	7
Anodd cyflwyno technoleg newydd	4	4
Mwy o drosiant staff	3	3
Cyfyngu ar ddatblygiad busnes	11	12
Costau gweithredu uwch	4	5
Colli effeithlonrwydd/mwy o wastraff	11	15
Dim problemau penodol	1	2
Sail amhwysol	**177**	**1198**

Ffynhonnell: Arolwg Sgiliau Generig Sgiliau Dyfodol Cymru 2003
Sail: Yr holl sefydliadau â bwlch sgiliau

4.3 Yr hyn a wnaed gan fusnesau mewn ymateb i fylchau o ran sgiliau

Mae 62 y cant o sefydliadau â bylchau o ran eu sgiliau yn darparu mwy o hyfforddiant i staff er mwyn ceisio mynd i'r afael â'r broblem. Dyma'r ymateb mwyaf cyffredin. Mae 11 y cant y cynyddu neu ehangu eu rhaglenni i hyfforddeion ac mae 7 y cant yn cynyddu recriwtio. Nid yw 11 y cant yn cymryd unrhyw gamau o gwbl mewn ymateb i fylchau o ran sgiliau – sy'n cymharu â'r ffigwr ar gyfer sefydliadau ar draws Cymru.

Tabl 4.5 Yr hyn a wnaed o ganlyniad i fylchau o ran sgiliau

Ymateb lluosog	**'Skillsmart'**	**Cymru** *%*
Darparu mwy o hyfforddiant	62	56
Newid arferion gwaith	6	6
Cynyddu/ehangu rhaglenni i hyfforddeion	11	18
Adleoli'r gwaith i rywle arall	*	1
Cynyddu recriwtio	7	8
Mwy o adolygiadau/cyfarfodydd tîm	3	3
Dim gweithredu penodol/ ei adael i'r farchnad	11	11
Ddim yn gwybod	5	4
Sail amhwysol	**177**	**1198**

Ffynhonnell: Arolwg Sgiliau Generig Sgiliau Dyfodol Cymru 2003
Sail: Yr holl sefydliadau â bylchau o ran sgiliau

Adran 5
Yr hyn a wnaed gan Gyflogwyr i Ddatblygu eu Gweithlu

Mae'r adran hon yn ystyried graddau'r hyfforddiant yn y sector hwn a'r rhwystrau y mae cyflogwyr yn eu hwynebu wrth ddarparu hyfforddiant.

Roedd 40 y cant o sefydliadau yn sector SSC 'Skillsmart' wedi ariannu neu wedi trefnu hyfforddiant i ffwrdd o'r swydd yn y 12 mis diwethaf; mae hyn yn is na'r ffigwr o 53 y cant i Gymru gyfan. Dengys tabl 5.1 yr amrywiaethau yn ôl isadran, gyda'r sefydliadau yn yr isadran fferyllol yn fwy tebygol o ddarparu hyfforddiant. Mae'r isadran fferyllol hefyd yn fwy tebygol o fod yn buddsoddi mwy mewn hyfforddiant na thair blynedd yn ôl (mae 38 y cant y sefydliadau yn buddsoddi mwy), ynghyd â'r isadran adwerthu anarbenigol (36 y cant). Mae hyn yn fwy na sector SSC 'Skillsmart' yn ei gyfanrwydd (25 y cant) ac yng Nghymru yn ei chyfanrwydd (32 y cant). Fodd bynnag, yn yr un modd â chyda'r holl ganfyddiadau ar gyfer yr isadran Fferyllol, dylid trin y canfyddiadau hyn â pheth gofal oherwydd maint cymharol fach y seiliau.

Tabl 5.1 - Hyfforddiant a Datblygu

		Pa un a yw'r buddsoddiad mewn hyfforddiant wedi cynyddu yn y tair blynedd diwethaf			
	Cyfran y sefydliadau sy'n darparu hyfforddiant	*Budd-soddi mwy na 3 blynedd yn ôl*	*Buddsoddi tua'r un faint â 3 blynedd yn ôl*	*Buddsoddi llai mewn hyfforddiant na thair blynedd yn ôl*	*Nid oedd yn gweithredu dair blynedd yn ôl*
Cymru	53	32	44	7	11
SSC 'Skillsmart'	**40**	**25**	**49**	**7**	**9**
Anarbenigol	46	36	40	6	8
Bwyd	44	22	49	8	8
Fferyllol	*55*	*38*	*40*	*4*	*4*
Arall newydd	36	21	52	7	11

Ffynhonnell: Arolwg Sgiliau Generig Sgiliau Dyfodol Cymru 2003
Sail: Yr holl sefydliadau â bylchau o ran sgiliau

Yn gyffredinol, mae sefydliadau yn y sector yn llawer mwy tebygol o nodi nad ydynt yn wynebu unrhyw rwystrau i ddarparu mwy o hyfforddiant (40 y cant o gymharu â 32 y cant yng Nghymru yn ei chyfanrwydd). Efallai bod hyn oherwydd bod cyflogwyr yn gallu cynnal tîm o staff medrus, ac nad ydynt yn cael unrhyw anawsterau wrth gael mynediad at hyfforddiant, neu fe all fod yn gysylltiedig â galw cymharol isel am sgiliau a hyfforddiant, hynny yw, nid yw cyflogwyr yn nodi rhwystrau i gynnal tîm medrus am eu bod yn gweithredu ar sail isel o ran sgiliau. Mae codi'r galw am sgiliau, a'u defnydd, ymysg cyflogwyr yn her allweddol i'r SSC.

Y rhwystr i hyfforddiant a nodir amlaf yn y sector, yw'r costau sy'n gysylltiedig â chaniatáu i staff gael amser i ffwrdd o'r gwaith ar gyfer hyfforddiant (a nodwyd gan 30 y cant y sefydliadau yn sector SSC 'Skillsmart').

Table 5.2 Rhwystrau i hyfforddiant

	Cymru	'Skillsmart'	Anarbenigol	Bwyd	Fferyllol	Arall newydd
Ymateb lluosog	*%*	***%***	*%*	*%*	*%*	*%*
Cost hyfforddiant	26	**16**	19	12	*20*	15
Nid oes hyfforddiant ar gael	6	**4**	3	4	*6*	4
Amser y dydd y cynhelir y cyrsiau	8	**8**	7	6	*14*	7
Methu fforddio i staff gael amser i ffwrdd o'r gwaith	31	**30**	26	16	*50*	31
Nid yw'r hyfforddiant yn berthnasol i anghenion y busnes	6	**8**	8	8	*6*	8
Dim rhwystrau	32	**40**	41	52	*18*	40
Sail amhwysol	**6020**	**966**	**233**	**118**	***87***	**505**

Ffynhonnell: Arolwg Sgiliau Generig Sgiliau Dyfodol Cymru 2003
Sail: Yr holl sefydliadau

Gofynnwyd i gyflogwyr hefyd am eu hagwedd tuag at sgiliau a datblygu sgiliau yn eu sefydliadau. Yn sector 'Skillsmart', cytunai 89 y cant y sefydliadau (yn gryf neu'n tueddu i gytuno) bod gan weithwyr sgiliau digonol i fodloni anghenion y busnes; 76y cant bod buddsoddi mewn sgiliau wedi esgor ar fuddion i'r busnes a 93 y cant bod cael gweithlu medrus yn hanfodol i lwyddiant eu busnes.

Crynodeb
Mae'r adroddiad hwn yn tynnu sylw at y materion sy'n allweddol i'r sector Adwerthu. Y prif faterion i fynd i'r afael â hwy yw:

- *Bodloni'r anghenion o ran sgiliau*. Deall Anghenion Cwsmeriaid, Cyfathrebu a'r Gallu i Ddilyn Cyfarwyddiadau yw'r sgiliau y mae eu hangen ar y lefel uchaf.
- *Mynd i'r afael ag anawsterau recriwtio a phrinder sgil*. Mae anawsterau yn ymwneud â recriwtio yn y sector ychydig yn llai amlwg na'r cyfartaledd i Gymru, ac mae nifer y cyflogwyr sy'n nodi prinder sgiliau yn rheswm dros anawsterau recriwtio hefyd yn is na'r cyfartaledd i Gymru. Mae bron i

draean y cyflogwyr sy'n nodi swyddi gwag anodd-eu-llenwi yn nodi diffyg ymgeiswyr sy'n fodlon gweithio am bris y farchnad fel y prif reswm.

- *Mynd i'r afael â bylchau o ran sgiliau yn y gweithlu presennol*. Mae bylchau o ran sgiliau yn y sector yn debyg i Gymru yn ei chyfanrwydd, gyda 17 y cant y cyflogwyr yn nodi bwlch rhwng y sgiliau y mae eu hangen ar y sefydliad â'r sgiliau sydd gan y gweithlu presennol. Fodd bynnag, mae'r sefydliadau sy'n nodi bylchau o ran sgiliau yn cynrychioli cyfran fwy o gyflogaeth na'r cyfartaledd i Gymru gyfan, a dyma awgrymu felly broblem fwy difrifol ymysg rhai gweithluoedd, yn isadran Bwyd yn benodol.
- *Gwella buddsoddiad cyflogwyr mewn hyfforddiant a datblygu'r gweithlu.* Mae cyfran y cyflogwyr sy'n buddsoddi mewn hyfforddiant i ffwrdd o'r gwaith llawer yn is na'r cyfartaledd i Gymru gyfan. Gall hyn fod o ganlyniad i lefel uwch o hyfforddiant mewn swydd, neu o ganlyniad i alw cymharol isel am sgiliau a hyfforddiant. Mae cyflogwyr yn y sector ychydig yn llai tebygol na'r cyfartaledd i nodi eu bod wedi dioddef rhwystrau i hyfforddiant, a lle'r oeddent wedi cael rhwystrau, roeddent fel arfer yn gysylltiedig â chyfyngiadau mewn cyllideb ac adnoddau.